EISTEDDFOD GADEIRIOL RHYDLEWIS A'R CYLCH

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Flynyddol eleni ar nos Wener Chwefror 22ain, dechrau am 4.30 yp. Er i nifer y gynulleidfa a nifer y cystadleuwyr i fod yn llai nag arfer cafwyd Eisteddfod hwylus ac o safon uchel iawn yn ôl y beirniaid. Beirniaid eleni oedd; Cerdd ~ Catrin Darnell; Adrodd a Llenyddiaeth ~ Eurig Salisbury; Arlunio i blant ~ Gwen Davies; Llenyddiaeth y plant ~ Emyr Davies a'r Cyfeilydd oedd Gareth Wyn Thomas. Llywydd y dydd oedd y Cyng Gwyn James a chafwyd ganddo anerchiad pwrpasol iawn. Diolch o galon iddo am gyfraniad hael iawn i gronfa'r Eisteddfod. Arweinyddion y dydd oedd Rhian Lloyd, Alwyn Ward, Siwsan Davies a Gareth Evans.

Prif Enillwyr:

Y Gadair (yn rhoddedig gan "Gware Crug yr Eryr") – Y Parchedig Judith Morris
Tlws LLenyddiaeth yr Ifanc – Carwen Richards
Her Unawd (Tarian Her Tom a Peggy Rees) – Aled Williams
Cenwch I'm Yr Hen Ganiadau – Aled Williams
Her Adroddiad - Sioned Howells
Canu Emyn (Cwpan Her Hilary Jones) - Sioned Howells

Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu mewn unrhyw fodd i wneud yr Eisteddfod yn llwyddiant.